



DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn amlinellu ymrwyd Aberacon i egwyddorion y Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Ar gyfer pwy yw'r ddogfen hon?

Pob aelodau'r Bwrdd, staff, mynychwyr, a masnachwyr.

Last reviewed Adolygwyd ddiwethaf	15 April Ebrill 2025
To be reviewed I'w adolygu	30 April Ebrill 2027



Rydym ni yn Aberacon wedi ymrwymo i egwyddorion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a diddymu caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Fel sefydliad cymunedol, rydym yn ymdrechu i greu a sicrhau amgylchedd gwaith anwahaniaethol a pharchus i'n staff a'n gwirfoddolwyr. Rydym am i'n holl staff a gwirfoddolwyr deimlo'n hyderus y gallant ddatgelu camwedd heb unrhyw risg iddynt eu hunain.

Mae ein prosesau recriwtio wedi'u cynllunio i sicrhau bod gan bob darpar weithiwr neu wirfoddolwr hawl gyfreithiol i weithio neu wirfoddoli yn y DU.

Mae ein polisiâu wedi'u cynllunio i ddiogelu gweithwyr a gwirfoddolwyr rhag unrhyw gamdriniaeth neu orfodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cod Ymddygiad
- Cod Ymddygiad staff
- Polisi chwythu'r chwiban
- Polisi bwlio ac aflonyddu
- Polisi amrywiaeth a chynhwysiant
- Polisi iaith Gymraeg

Ni fyddwn byth yn cychwyn busnes gydag unrhyw sefydliad sy'n cefnogi neu y canfyddir ei fod yn ymwneud â chaethwasiaeth, caethiwed, a llafur gorfodol. Ar ben hynny, byddwn yn terfynu unrhyw gysylltiadau ffurfiol wrth symud ymlaen ag unrhyw sefydliad y canfyddir ei fod yn ymwneud â chaethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol.

Oherwydd natur ein digwyddiad, rydym yn asesu ein hunain i fod â risg isel o gaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni busnes a chyflenwi.

Mae ein cadwyni cyflenwi yn gyfyngedig, a byddwn yn ymdrechu i gaffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr lleol gymaint â phosibl.

Last reviewed Adolygwyd ddiwethaf	15 April Ebrill 2025
To be reviewed I'w adolygu	30 April Ebrill 2027